



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Canllawiau ar godau presenoldeb yn yr ysgol

Cyhoeddwyd Mehefin 2010

Cynulleidfa

Ysgolion, awdurdodau lleol a llywodraethwyr ysgol.

Trosolwg

Ceir yn y ddogfen hon restr o'r codau y bydd pob ysgol yng Nghymru yn eu defnyddio.

Camau i'w cymryd

Defnyddir y codau'n gyson i gofnodi gwybodaeth am bresenoldeb ledled Cymru

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cefnogi Cyflawniad a Diogelu

Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, y Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i

Ddysgwyr

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 826 097

e-bost: wellbeingshare@cymru.gsi.gov.uk

Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

www.llyw.cymru/addysgasgiliau

Dogfennau cysylltiedig

Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan (2011)



ISBN: 978 1 4734 6228 1

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2016

WG28364

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Diben y ddogfen hon	1
Yr angen am ddiwygio'r system godau bresennol	1
Trosolwg o'r newidiadau: yr effaith ar ffigurau presenoldeb yn yr ysgol	1
Adran 1: Newidiadau deddfwriaethol – rheoliadau newydd	3
Adran 2: Canllawiau newydd ynghylch y codau presenoldeb	5
Cyflwyniad	5
Canllawiau pellach	5
Allwedd i'r codau presenoldeb newydd	6
Categori ystadegol: yn bresennol	8
Categori ystadegol: gweithgaredd addysgol cymeradwy	11
Categori ystadegol: absenoldeb awdurdodedig	19
Categori ystadegol: absenoldeb anawdurdodedig	32
Categori ystadegol: dim rhaid bod yn bresennol	38

Ble i ddod o hyd i'r codau presenoldeb newydd

Codau	Disgrifiad	Tudalen
A	Yn bresennol yn ystod y cyfnod cofrestru	8
L	Hwyr ond yn cyrraedd cyn i'r gofrestr gau	10
B	Addysgir oddi ar y safle (nid cofrestriad deuol)	11
D	Cofrestriad deuol (h.y. mae'r disgybl yn mynd i sefydliad arall)	13
P	Gweithgaredd chwaraeon a gymeradwywyd	15
V	Ymweliad neu daith addysgol	16
J	Cyfweliad	17
W	Profiad gwaith (nid hyfforddiant seiliedig ar waith)	18
C	Amgylchiadau awdurdodedig eraill (nas cwmpesir gan god/disgrifiad priodol arall)	19
F	Gwyliau teuluol estynedig y cytunwyd arnynt	21
H	Gwyliau teuluol y cytunwyd arnynt	23
I	Salwch	25
M	Apwyntiad meddygol neu ddeintyddol	26
S	Absenoldeb astudio	27
E	Wedi'i wahardd ond ni wneir unrhyw ddarpariaeth amgen	28
R	Diwrnod a neilltuwyd ar gyfer defodau crefyddol yn unig	30
T	Absenoldeb teithiwr	31
N	Ni roddwyd unrhyw reswm eto dros yr absenoldeb	32
O	Absenoldeb anawdurdodedig arall (nas cwmpesir gan godau na disgrifiadau eraill)	33
G	Gwyliau teuluol (na chytunwyd arnynt neu sesiynau sy'n ychwanegol at yr hyn y cytunwyd arno)	34
U	Hwyr (ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben)	36
X	Sesiynau heb eu rhaglennu ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol	38
Y	Cau ysgol yn rhannol a gorfod cau ysgol	40
Z	Nid yw'r disgybl ar y gofrestr eto	42
#	Yr ysgol ar gau i bob disgybl	43

Cyflwyniad

Diben y ddogfen hon

Lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y ddogfen “Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb” ar 30 Mawrth 2009. Un o'r prif gamau oedd: “Llunio Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan a fyddai'n cynnwys diwygio'r codau presennol ynghylch presenoldeb a llunio canllawiau.”

O ganlyniad i hyn, mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfarfod â phartneriaid mewn ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn:

- i) ystyried y diffygion yn y codau a'r canllawiau presennol;
- ii) llunio rhestr ddiwygiedig a chynhwysfawr o godau; a
- iii) llunio canllawiau atodol ar y codau.

Ceir yn y ddogfen hon restr o'r codau diwygiedig y bydd pob ysgol yng Nghymru yn eu defnyddio.

Yr angen am ddiwygio'r system godau bresennol

Ein bwriad wrth gyflwyno'r codau newydd hyn yw sicrhau bod yr un codau presenoldeb yn cael eu defnyddio ledled Cymru ar gyfer cofnodi gwybodaeth am bresenoldeb. Rydym wedi cydweithio â chyflenwyr meddalwedd ar gyfer ysgolion er mwyn hwyluso'r gwaith o gynnwys y codau mewn pecynnau meddalwedd a ddefnyddir gan ysgolion ar gyfer cofnodi presenoldeb. Bydd hyn yn golygu y ceir mwy o gysondeb wrth gasglu data am bresenoldeb mewn ysgolion ledled Cymru. Bydd hefyd yn caniatáu mwy o gyfle i ymchwilio ymhellach i'r rhesymau pam y mae disgyblion yn absennol, i wella dulliau o ddiogelu a thracio disgyblion a, thrwy hynny, roi strategaethau ar waith i ddelio'n effeithiol â phroblemau penodol.

Trosolwg o'r newidiadau: yr effaith ar ffigurau presenoldeb yn yr ysgol

Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau yn adlewyrchu rhaniad mwy amlwg yn y codau presennol ac felly nid ydynt yn effeithio ar y dosbarthiadau cyffredinol ar gyfer presenoldeb, sef yn bresennol neu absenoldeb awdurdodedig/absenoldeb anawdurdodedig. Fodd bynnag mae nifer bychan o newidiadau mwy arwyddocaol a allai effeithio ar ffigurau presenoldeb cyffredinol ysgol. Dyma'r prif newidiadau:

- Cyflwyno pumed categori ystadegol newydd, sef 'dim rhaid bod yn bresennol', i'w ddefnyddio ar gyfer nifer bychan o amgylchiadau penodol prin. Bydd y categori hwn yn cyfeirio at absenoldeb a gwyd o ganlyniad i gau'r ysgol i rai disgyblion yn unig, er enghraifft, lle na all rhai o'r disgyblion fynychu'r ysgol oherwydd tywydd garw. Ni fyddai achosion o'r fath yn cael eu cofnodi bellach fel absenoldeb awdurdodedig.

- Lle bo plant teithwyr wedi'u cofrestru mewn mwy nag un ysgol a hwythau yn bresennol yn un o'r ysgolion hynny, gall yr ysgol arall neu'r ysgolion eraill lle maent wedi'u cofrestru gofnodi eu bod yn derbyn gweithgaredd addysgol cymeradwy. Ni fyddai achosion o'r fath yn cael eu cofnodi bellach fel absenoldeb awdurdodedig.
- Ni chaiff troseddwr ifanc ei ddileu o'r gofrestr bellach ond lle bo ei gyfnod yn y ddalfa am bedwar mis o leiaf a lle bo gan yr ysgol sail resymol dros gredu na fydd y disgybl hwnnw yn dychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Caiff ei absenoldeb ei gofnodi fel absenoldeb awdurdodedig hyd nes y bydd ei enw wedi'i ddileu oddi ar y gofrestr. Os bydd gweithgaredd addysgol cymeradwy arall yn cael ei ddarparu ar ei gyfer tra bydd yn y ddalfa, gall yr ysgol gofnodi bod y disgybl yn derbyn gweithgaredd addysgol cymeradwy. Cyn hyn, gallai enw disgybl gael ei ddileu oddi ar y gofrestr petai wedi bod yn absennol am bedair wythnos a'i gadw'n gaeth o ganlyniad i orchymyn llys.

Adran 1: Newidiadau deddfwriaethol – rheoliadau newydd

Mae rhai o'r newidiadau i'r codau a'r canllawiau wedi'i gwneud yn ofynnol i gyflwyno Rheoliadau newydd ynghylch Cofrestru Disgyblion. Dyma'r prif newidiadau i'r Rheoliadau:

1. Byddai'n ofynnol i ysgolion roi disgyblion ar y gofrestr derbyn ar y diwrnod cyntaf y maent yn disgwyl i'r disgybl fynychu'r ysgol ar sail cytundeb neu hysbysiad blaenorol ac nid ar yr union ddiwrnod y maent yn dod i'r ysgol.
2. Os caiff disgybl ei rwystro rhag mynychu'r ysgol oherwydd amgylchiadau eithriadol, er enghraifft os yw rhan o safle'r ysgol wedi'i chau neu os yw'r safle wedi'i gau yn gyfan gwbl neu os nad yw'r cludiant a ddarperir gan yr ysgol neu'r awdurdod ar gyfer y disgybl hwnnw ar gael, gellir cofnodi 'dim rhaid bod yn bresennol' ar gyfer y disgybl hwnnw yn y gofrestr. Caiff hyn ei gofnodi o dan y cod newydd Y. Cyn hyn, byddai absenoldeb awdurdodedig wedi'i gofnodi ar gyfer y disgybl.
3. Fel cynt, os oes gan ddisgybl gofrestriad deuol mewn mwy nag un ysgol, gall yr ysgol arall gofnodi ei fod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd addysgol cymeradwy ar gyfer unrhyw sesiwn ysgol benodol y mae disgwyl iddo ei mynychu mewn un o'r ysgolion hynny. Y mae'r categori hwn wedi'i estyn bellach i gynnwys disgyblion sy'n blant i deithwyr y gwyddys eu bod yn mynychu ysgol arall lle maent wedi'u cofrestru. Bydd absenoldeb plant teithwyr yn cael ei gofnodi yn awr o dan y cod D. Cyn hyn, câi ei gofnodi fel absenoldeb awdurdodedig o dan y cod C.
4. Lle bydd gan ddisgybl gofrestriad deuol mewn mwy nag un ysgol (gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion) ond na fydd yn mynychu un o'r ysgolion hynny mwyach, ni chaniateir i'w enw gael ei ddileu oddi ar gofrestr yr ysgol honno hyd nes y bydd yr ysgol arall y mae'r disgybl wedi cofrestru ynddi neu'r ysgolion eraill y mae'r disgybl wedi cofrestru ynddynt yn cytuno i'w enw gael ei ddileu. Nid yw hyn yn gymwys i ddisgybl sydd wedi marw, sydd wedi'i wahardd yn barhaol neu sydd heb breswylfa barhaol.
5. Os nad yw disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod o absenoldeb, byddai'n ofynnol i'r ysgol a'r awdurdod lleol yn y dyfodol ganfod ble yn union y mae'r disgybl hwnnw. Os bydd yr ysgol a'r awdurdod lleol yn methu canfod ble mae'r disgybl, a hwythau wedi gwneud ymholiadau i'r graddau y bo'n rhesymol, ac os bydd y cyfnod lle na fydd y disgybl wedi dychwelyd i'r ysgol yn fwy na 10 diwrnod, gall yr ysgol ddileu enw'r disgybl oddi ar y gofrestr derbyn. Cyn hyn, nid oedd ceisio canfod lleoliad y disgybl yn ofynnol.
6. Gall ysgol ddileu enw disgybl oddi ar y gofrestr derbyn ar y sail y bu'r disgybl yn absennol heb awdurdod am 20 diwrnod ysgol o leiaf, a lle nad oes sail i'r ysgol gredu na all y disgybl fod yn bresennol oherwydd salwch neu reswm arall nad oes modd ei osgoi a lle bo'r ysgol a'r awdurdod lleol fel ei gilydd wedi methu canfod ble mae'r disgybl, a hwythau wedi gwneud ymholiadau i'r graddau y bo'n rhesymol. Cyn hyn, cyfnod yr absenoldeb anawdurdodedig oedd pedair wythnos yn hytrach nag 20 diwrnod ysgol ac

nid oedd yn ofynnol i'r ysgol fod â rheswm dros gredu na allai'r disgybl fod yn bresennol oherwydd salwch neu reswm arall nad oedd modd ei osgoi.

7. Os yw disgybl wedi'i gadw yn y ddalfa o ganlyniad i orchymyn llys am bedwar mis o leiaf a lle nad oes gan yr ysgol sail resymol dros gredu y bydd y disgybl hwnnw yn dychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, gall yr ysgol ddileu ei enw oddi ar y gofrestr. Cyn hyn, gallai enw disgybl gael ei ddileu oddi ar y gofrestr petai wedi bod yn absennol am bedair wythnos a'i gadw'n gaeth o ganlyniad i orchymyn llys.
8. Mae'r gofyniad bod yn rhaid i ysgolion ddweud wrth eu hawdurdod lleol pan fydd enw disgybl yn cael ei ddileu wedi ei estyn. Rhaid i'r ysgol roi gwybod i'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bydd y sail dros ddileu'r enw wedi'i gwireddu a chyn mynd ati i ddileu enw'r disgybl. Yn ogystal â'r gofyniad blaenorol lle bo rhieni yn dewis addysgu eu plant eu hunain, mae'r gofyniad yn berthnasol bellach i ddileu enwau:
 - lle nad yw'r disgybl yn mynychu'r ysgol bellach a lle nad yw'n byw mwyach o fewn pellter rhesymol o'r ysgol. Nid yw hyn yn gymwys yn achos disgyblion sy'n preswyllo yn yr ysgol;
 - lle cafodd y disgybl ei ardystio gan swyddog meddygol yr ysgol yn annhebygol o fod yn iach i fynychu'r ysgol cyn y daw i derfyn yr oedran ysgol gorfodol a lle nad yw ef na'i rieni wedi dweud wrth yr ysgol ei fod yn bwriadu parhau â'i addysg y tu hwnt i'r oedran ysgol gorfodol;
 - lle bo'r disgybl wedi'i gadw yn y ddalfa am gyfnod heb fod yn llai na phedwar mis a lle bo gan yr ysgol sail resymol dros gredu na fydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl cael ei ryddhau; neu
 - lle bo'r disgybl wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol.
9. Lle bo cofrestr yr ysgol yn cael ei chadw ar gyfrifiadur, rhaid i'r ysgol sicrhau bod copi wrth gefn o'r gofrestr yn cael ei gadw, naill ai'n electronig neu ar ffurf micro-fiche neu ar ffurf copi caled wedi'i argraffu o leiaf unwaith y mis. Cyn hyn, roedd yn rhaid i'r copi wrth gefn fod ar ffurf copi caled wedi'i argraffu.

Adran 2: Canllawiau newydd ynghylch y codau presenoldeb

Cyflwyniad

Diben y nodyn canllaw hwn yw cynorthwyo ysgolion (gan gynnwys ysgolion annibynnol) ac Awdurdodau Lleol i ddefnyddio'r codau i gofrestru presenoldeb ac absenoldeb disgyblion mewn ysgolion. Mae'n ymwneud â phresenoldeb mewn sesiynau cofrestru statudol yn y bore a'r prynhawn ac yn disodli'r nodiadau cwblhau technegol ar gyfer ysgolion sy'n ategu'r datganiad presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion fod ar agor i ddisgyblion am 190 o ddiwrnodau mewn blwyddyn academiaidd neu 380 o sesiynau.

Gellir defnyddio'r canllawiau ar y cyd â systemau i gofnodi presenoldeb mewn systemau "fesul gwers" ond efallai y bydd angen i ysgolion gofnodi rhesymau eraill yn y math hwn o system. Fodd bynnag, lle y defnyddir y cyfryw systemau a defnyddir y wers gyntaf yn y bore neu unrhyw sesiwn yn y prynhawn yn lle sesiwn cofrestru'r bore a sesiwn cofrestru'r prynhawn, mae'n rhaid defnyddio'r codau yn y canllawiau hyn ar gyfer y sesiynau hynny.

Dylid defnyddio'r canllawiau ar y cyd â'r rheoliadau newydd y bwriedir eu cyflwyno yn 2010, fydd ar gael yn www.statutelaw.gov.uk.

Cred [Llywodraeth Cynulliad Cymru](#) mai'r ffordd orau o ddefnyddio'r codau hyn yw o fewn systemau electronig ar gyfer cofnodi presenoldeb ac absenoldeb disgyblion. Gall y cyfryw systemau electronig gynhyrchu'r data sydd ei angen ar gyfer datganiadau absenoldeb i Lywodraeth Cynulliad Cymru heb fod angen cyfrif presenoldeb posibl ac absenoldeb gwirioneddol sy'n cymryd cryn dipyn o amser.

Bydd defnyddio codau penodol yn cynorthwyo ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i fonitro nid yn unig a yw disgyblion yn absennol gyda chaniatâd neu heb ganiatâd yr ysgol, ond pam mae disgyblion yn absennol o'r ysgol. Gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon i lunio ymyriadau i fynd i'r afael â phresenoldeb sy'n gwaethygu, presenoldeb gwael, absenoldeb parhaus a materion eraill a ddatgelir gan y data.

Canllawiau pellach

Ceir canllawiau pellach ar yr holl faterion sy'n ymwneud â phresenoldeb yn yr ysgol ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:

<http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policystrategyandplanning/schools/339214-wag/inclusionpupilsupportguidance/section3/?skip=1&lang=cy>

<http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policystrategyandplanning/schools/339214-wag/inclusionpupilsupportguidance/section4/?skip=1&lang=cy>

Allwedd i'r codau presenoldeb newydd

Mae'r codau yr argymhellir eu defnyddio wedi'u grwpio o dan y pum categori ystadegol canlynol:

- yn bresennol;
- gweithgaredd addysgol cymeradwy (lle ystyrir bod y disgybl yn bresennol);
- absenoldeb awdurdodedig;
- absenoldeb anawdurdodedig;
- dim angen bod yn bresennol;

Cod Ystyr		Categori ystadegol
A	Yn bresennol yn ystod y cyfnod cofrestru	yn bresennol
L	Hwyr ond yn cyrraedd cyn i'r gofrestr gau	yn bresennol
B	Addysgir oddi ar y safle (nid cofrestriad deuol)	gweithgaredd addysgol cymeradwy
D	Cofrestriad deuol (h.y. mae'r disgybl yn mynd i ysgol arall neu Uned Cyfeirio Disgyblion)	gweithgaredd addysgol cymeradwy
P	Gweithgaredd chwaraeon a gymeradwywyd	gweithgaredd addysgol cymeradwy
V	Ymweliad neu daith addysgol	gweithgaredd addysgol cymeradwy
J	Cyfweliad	gweithgaredd addysgol cymeradwy
W	Profiad gwaith (nid hyfforddiant seiliedig ar waith)	gweithgaredd addysgol cymeradwy
C	Amgylchiadau awdurdodedig eraill (nas cwmpeisir gan god/disgrifiad priodol arall)	absenoldeb awdurdodedig
F	Gwyliau teuluol estynedig y cytunwyd arnynt	absenoldeb awdurdodedig
H	Gwyliau teuluol y cytunwyd arnynt	absenoldeb awdurdodedig
I	Salwch	absenoldeb awdurdodedig
M	Apwyntiad meddygol neu ddeintyddol	absenoldeb awdurdodedig
S	Absenoldeb astudio	absenoldeb awdurdodedig
E	Wedi'i wahardd ond ni wneir unrhyw ddarpariaeth amgen	absenoldeb awdurdodedig
R	Diwrnod a neilltuwyd ar gyfer defodau crefyddol yn unig	absenoldeb awdurdodedig
T	Absenoldeb teithiwr	absenoldeb awdurdodedig

Cod Ystyr

N	Ni roddwyd unrhyw reswm eto dros yr absenoldeb
O	Absenoldeb anawdurdodedig arall (nas cwmpesir gan godau na disgrifiadau eraill)
G	Gwyliau teuluol (na chytunwyd arnynt neu sesiynau sy'n ychwanegol at yr hyn y cytunwyd arno)
U	Hwyr ond yn cyrraedd cyn i'r gofrestr gau
X	Sesiynau heb eu rhaglennu ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol
Y	Cau ysgol yn rhannol a gorfod cau ysgol
Z	Nid yw'r disgybl ar y gofrestr eto
#	Yr ysgol ar gau i bob disgybl

Categori ystadegol

absenoldeb anawdurdodedig
absenoldeb anawdurdodedig
absenoldeb anawdurdodedig
absenoldeb anawdurdodedig
dim angen bod yn bresennol
dim angen bod yn bresennol
dim angen bod yn bresennol
dim angen bod yn bresennol

Categori ystadegol: yn bresennol

Cod Cofrestru: / \

Disgrifiad Byr	Yn bresennol /= am \ = pm
Ystyr Ystadegol	Yn bresennol
Ystyr Gyfreithiol	Yn bresennol
Ystyr Ffisegol	I mewn am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Yn bresennol yn yr ysgol yn ystod y cyfnod cofrestru

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

- Ni ddylid nodi bod disgyblion yn bresennol os nad oeddent yn yr ysgol yn ystod y cyfnod cofrestru. Ni ddylid cofnodi bod disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol yn bresennol yn ystod y cyfnod cofrestru ar gyfer sesiwn yn ystod y diwrnod ysgol. Byddai hyn yn rhoi'r argraff anghywir bod y disgybl yn bresennol mewn gwersi yn ystod y sesiwn honno a allai gael canlyniadau diangen.
- Cofnodir disgyblion sy'n bresennol mewn cyfleusterau neu ddarpariaeth yn yr ysgol ac eithrio gwersi prif ffrwd, megis unedau cymorth dysgu a "gwaharddiad mewnol" fel y'i gelwir, yn yr un ffordd â disgyblion eraill, h.y. dylai ysgolion ddefnyddio'r codau arferol ar gyfer presennol os yw'r disgyblion yn bresennol yn y cyfnod cofrestru a'r codau priodol ar gyfer absenoldeb os ydynt yn absennol.
- Petai disgybl yn gadael safle'r ysgol ar ôl y cyfnod cofrestru byddai'n dal i gael ei gyfrif yn bresennol at ddibenion ystadegol.
- Yn y prynhawn mae'n rhaid cofrestru'r disgyblion ar ddechrau'r sesiwn neu yn ystod y sesiwn, nid ar ddiwedd y sesiwn flaenorol nac yn ystod yr egwyl rhwng sesiynau.
- Am resymau iechyd a diogelwch a rhesymau yn ymwneud â diogelu plant, mae angen i ysgolion wybod ble mae disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n gadael neu'n cyrraedd safle'r ysgol yn ystod sesiwn. Gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio system bapur yn swyddfa'r ysgol, er enghraifft gofyn i ddisgyblion gofrestru bob tro maent yn gadael ac yn cyrraedd safle'r ysgol, i gofnodi bod disgybl wedi gadael safle'r ysgol yn ystod y sesiwn. Gall systemau megis "monitro gwersi" helpu ysgolion i nodi disgyblion sy'n absennol o wersi hefyd.
- Efallai y bydd ysgolion am gael codau ychwanegol yn eu systemau "monitro gwersi" i gofnodi ble mae disgyblion pan nad ydynt mewn gwersi prif ffrwd. Mae hyn yn dderbyniol ond ni ellir bwydo'r codau ychwanegol hyn i mewn i system Cyfrifiad yr ysgol. Os defnyddir y wers gyntaf yn y bore neu unrhyw sesiwn yn y prynhawn i gofrestru disgyblion yn lle cyfnod

cofrestru'r bore a'r prynhawn, mae'n rhaid defnyddio'r codau yn y nodyn canllaw hwn ar gyfer y sesiynau hynny.

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynghori y dylai ysgolion gau'r gofrestr i ddisgyblion 30 munud ar ôl i'r gofrestr gael ei llenwi. Mae hefyd yn cynghori ysgolion i beidio â gadael y gofrestr ar agor am y sesiwn gyfan. (Gweler Cod L a Chod U)
- O dan Reoliadau'r Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol, gall ysgolion bennu amseroedd sesiynau gwahanol i ddisgyblion gwahanol, er enghraifft yn ystod arholiadau cyhoeddus a phennu amseroedd gwersi gwahanol i ddisgyblion mewn unedau gwahardd mewnol neu unedau gwahardd a rennir. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt ystyried cyngor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr isafswm amser addysgu ar gyfer disgyblion a'r gofyniad rheoliadol i gynnig 380 o sesiynau i bob disgybl.
- Os bydd ysgolion yn pennu amseroedd sesiynau gwahanol, dylent gau'r gofrestr 30 munud ar ôl i'r gofrestr gael ei llenwi ar gyfer y grŵp hwnnw o ddisgyblion. Er enghraifft os dechreuodd y prif ddiwrnod ysgol am 8.30am ond bod yr uned wahardd fewnol (neu'r uned wahardd a rennir) wedi dechrau am 9.30am:
 - > dylai'r gofrestr ar gyfer y brif ysgol gau am 9.00am; a
 - > bydd y gofrestr ar gyfer yr uned wahardd yn cau am 10.00am.

(Gweler Cod L a Chod U)

- **Am resymau yn ymwneud â diogelu plant a rhesymau addysgol, mae'n rhaid i ysgolion ymchwilio i bob absenoldeb heb ei esbonio a phob absenoldeb annisgwyl yn amserol, er enghraifft drwy weithdrefnau “Galw ar y Diwrnod Cyntaf”.**

Cod Cofrestru: L

Disgrifiad Byr	Hwyr (cyn i gofrestrau gau)
Ystyr Ystadegol	Presennol
Ystyr Gyfreithiol	Presennol
Ystyr Ffisegol	Hwyr i'r sesiwn
Pryd i'w ddefnyddio	<p>Dylai ysgolion ymdrechu i annog disgyblion i beidio â bod yn hwyr a gwylio am batrymau cyrraedd yn hwyr, a allai ddarparu sail ar gyfer erlyniad. Dylai fod gan ysgolion bolisi ar ba mor hir y dylid cadw cofrestrau ar agor.</p> <p>O dan amgylchiadau megis tywydd gwael neu anawsterau yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus, gall ysgolion gadw'r gofrestr ar agor am gyfnod hwy.</p>

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Mae llawer o ysgolion/ALLau wedi gofyn a allai ysgolion gael amser y cytunwyd arno ar gyfer cau'r gofrestr. Nid yw hyn yn bosibl oherwydd anghenion unigol pob ysgol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi y dylai ysgolion gau'r gofrestr i ddisgyblion 30 munud ar ôl dechrau'r sesiwn. Mae hefyd yn cynghori ysgolion i beidio â gadael y gofrestr ar agor am y sesiwn gyfan. (Gweler Cod L a Chod U)

O dan reoliadau'r Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol, gall ysgolion bennu amseroedd sesiynau gwahanol i ddisgyblion gwahanol, er enghraifft yn ystod arholiadau cyhoeddus a phennu amseroedd gwersi gwahanol i ddisgyblion mewn unedau gwahardd. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt ystyried cyngor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr isafswm amser addysgu ar gyfer disgyblion a'r gofyniad rheoliadol i gynnig 380 o sesiynau.

Os bydd ysgolion yn pennu amseroedd sesiynau gwahanol, dylent gau'r gofrestr 30 munud ar ôl i'r gofrestr gael ei llenwi ar gyfer y grŵp hwnnw o ddisgyblion. Er enghraifft os dechreuodd y prif ddiwrnod ysgol am 8.30am ond bod yr uned wahardd wedi dechrau am 9.30am:

- dylai'r gofrestr ar gyfer y brif ysgol gau am 9.00am;
- bydd y gofrestr ar gyfer yr uned wahardd yn cau am 10.00am.

(Gweler hefyd God U)

- **Am resymau yn ymwneud â diogelu plant a rhesymau addysgol, mae'n rhaid i ysgolion ymchwilio i bob absenoldeb heb ei esbonio a phob absenoldeb annisgwyl yn amserol, er enghraifft drwy weithdrefnau "Galw ar y Diwrnod Cyntaf".**

Categori ystadegol: gweithgaredd addysgol cymeradwy

Cod Cofrestru: B

Disgrifiad Byr	Addysgir oddi ar y safle (Nid Cofrestriad deuil)
Ystyr Ystadegol	Gweithgaredd Addysgol Cymeradwy
Ystyr Gyfreithiol	Mynd i weithgaredd addysgol cymeradwy
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Pan fo disgybl wedi'i gofrestru wrthi'n cael ei addysgu oddi ar y safle mewn gweithgaredd dan oruchwyliaeth a gymeradwywyd gan yr ysgol.

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Gellir defnyddio'r cod hwn ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys Plant teithwyr, sy'n bresennol mewn darpariaeth addysgol nad yw yr ysgol.

Enghreifftiau o pryd y câi'r cod hwn ei ddefnyddio:

- mynd i ddiwrnodau rhagflas mewn ysgolion eraill;
- disgyblion sy'n mynd i ysgol arall fel 'disgyblion gwadd' (noder: mae'n rhaid cofrestru disgybl sy'n mynd i ysgol arall fel rhan o batrwm rheolaidd yn ddeuil – Gweler Cod D);
- disgyblion sy'n mynd ar gyrsiau galwedigaethol mewn coleg;
- disgyblion sy'n mynd i ddarpariaeth amgen a drefnwyd gan yr ysgol neu y cytunwyd arni gan yr ysgol;
- disgyblion ar brofiad gwaith fel rhan o gwricwlwm amgen neu ddarpariaeth amgen (dylid cofnodi disgyblion sydd ar brofiad gwaith o dan adran 560 o Ddeddf Addysg 1996 o dan God W).

Am resymau addysgol a rhesymau yn ymwneud â diogelu plant, dylai ysgolion sicrhau fod ganddynt drefniadau ar waith i alluogi darparwr y gweithgaredd amgen a ddarperir "oddi ar y safle" i hysbysu'r ysgol o unrhyw ddisgyblion unigol sy'n absennol fel y gall yr ysgol gofnodi absenoldeb gan ddefnyddio'r cod absenoldeb perthnasol.

Mae'n rhaid i weithgaredd addysgol cymeradwy gael ei oruchwyllo gan rywun a gymeradwywyd gan yr ysgol. At hynny mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn y cofnodir y marc ar ei gyfer.

Ni ddylid defnyddio'r cod hwn pan fydd disgyblion yn mynd i ddarpariaeth amgen ar safle'r ysgol.

Ni ddylai ysgolion ddefnyddio'r cod hwn os oes gan ddisgybl amserlen ran-amser y cytunwyd arni fel rhan o broses ailintegreiddio neu drosglwyddo. Mae'r ysgol yn

awdurdodi'r absenoldeb ar gyfer y sesiynau pan nad oes angen i'r disgybl fod yn yr ysgol a dylid cofnodi'r disgybl fel Cod C ar gyfer y sesiynau hynny. Er bod amserlenni rhan-amser yn dechneg ddefnyddiol i helpu disgyblion i addasu neu ail-addasu i leoliad yr ysgol, maent yn golygu na all yr ysgol gynnig y 380 o sesiynau y mae'n ofynnol iddi eu darparu i'r disgyblion hynny. Dylai'r cyfryw amserlenni fod yn fesur byrdymor.

Ni ddylai ysgolion ddefnyddio'r cod hwn i gofnodi absenoldeb astudio. Amser i ffwrdd o'r ysgol i ddisgyblion gael paratoi heb oruchwyliaeth ar gyfer eu harholiadau cyhoeddus yw absenoldeb astudio ac mae llawer o ddisgyblion yn trin y cyfryw amser fel gwyliau ychwanegol ac nid ydynt yn astudio. O ganlyniad, nid yw absenoldeb astudio yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o weithgaredd addysgol a gymeradwywyd.

Ni ddylai ysgolion ddefnyddio'r cod hwn i gofnodi diwrnodau adolygu disgyblion os mai'r cyfan a wnânt yw anfon disgyblion adref gyda gwaith cartref ac astudio preifat. Yn debyg i absenoldeb astudio nid yw'n cael ei oruchwyllo ac fel arfer mae'n cael ei drin fel gwyliau ychwanegol gan ddisgyblion. Felly ni fyddai'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o weithgaredd addysgol a gymeradwywyd. Gellir defnyddio'r cod hwn pan fydd ysgolion wedi trefnu gweithgareddau addysgol dan oruchwyliaeth oddi ar y safle yn lle'r gwersi arferol tra bod cyfweiliadau adolygu yn cael eu cynnal.

Cod Cofrestru: D

Disgrifiad Byr	Cofrestriad deul (h.y. mae'r disgybl yn mynd i sefydliad arall)
Ystyr Ystadegol	Gweithgaredd Addysgol Cymeradwy
Ystyr Gyfreithiol	Mynd i weithgaredd addysgol cymeradwy
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Mae'r gyfraith yn darparu ar gyfer cofrestru disgyblion yn ddeul mewn mwy nag un ysgol. Pan fo disgybl wedi'i gofrestru'n ddeul yn sefydliad X a Y, mae sefydliad X yn marcio gweithgaredd addysgol y disgybl a gymeradwywyd tra bydd yn bresennol yn sefydliad Y ac fel arall. Mae'r ddau sefydliad yn rhannu'r cyfrifoldeb am y plentyn. Mae methu â mynd i'r naill sefydliad neu'r llall ar yr adeg iawn heb reswm da yn absenoldeb anawdurdodedig.

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Dylid defnyddio'r cod hwn pan fo disgybl wedi'i gofrestru yn ddeul mewn dwy ysgol ac, am y sesiwn dan sylw, nad oes angen iddo fod yn bresennol yn eich ysgol chi.

Mae'r ysgol y disgwylir i'r disgybl fod yn bresennol ynddi yn gyfrifol am gofnodi presenoldeb y disgybl yn gywir ac ymchwilio i unrhyw achos o absenoldeb.

Dylid cofrestru disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeul mewn dwy ysgol fel y cyfryw yn systemau gwybodaeth reoli (MIS) y ddwy ysgol o dan "statws cofrestru disgybl". Er enghraifft - Mae myfyriwr ar y gofrestr yn ysgol A ond yn bresennol yn ysgol B (a allai fod yn uned cyfeirio disgyblion (PRU) neu'n ysgol arbennig).

- Ysgol A - cofnod M (Prif sefydliad – cofrestriad deul).
- Ysgol B - cofnod S (Sefydliad atodol – cofrestriad deul).

Gellir defnyddio'r cod hwn ar gyfer plant Teithwyr pan fo'n hysbys eu bod:

- yn mynd i ysgol arall;
- wedi'u cofrestru yn y ddwy ysgol;

Ni ddylid ei ddefnyddio oni fodlonir y ddau amod hyn.

Dylai ysgolion sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i alluogi'r ysgol lle mae'r disgybl wedi'i gofrestru i hysbysu'r ysgol "arall" o unrhyw ddisgyblion unigol sy'n absennol fel y gall y ddwy ysgol gofnodi absenoldeb y disgybl gan ddefnyddio'r cod absenoldeb perthnasol. Am resymu yn ymwneud â diogelu plant a rhesymau addysgol, mae'n rhaid i un o'r ysgolion ymchwilio i bob absenoldeb heb ei esbonio a phob absenoldeb annisgwyl yn amserol, er enghraifft drwy weithdrefnau "Galw ar y Diwrnod Cyntaf".

Mae'n rhaid i Weithgaredd Addysgol Cymeradwy gael ei oruchwylio gan rywun a gymeradwywyd gan yr ysgol. At hynny mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn y cofnodir y marc ar ei chyfer.

Cod Cofrestru: P

Disgrifiad Byr	Gweithgaredd chwaraeon cymeradwy
Ystyr Ystadegol	Gweithgaredd Addysgol Cymeradwy
Ystyr Gyfreithiol	Mynd i weithgaredd addysgol cymeradwy
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Mae'r disgybl yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon cymeradwy neu mae'n bresennol yn y cyfryw weithgaredd.

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Mae'n rhaid i'r gweithgaredd gael ei oruchwylio gan unigolyn a awdurdodwyd o ran hynny gan Bennaeth yr ysgol.

Mae'n rhaid sicrhau bod y disgybl yn cymryd rhan yn y gweithgaredd. Ni ddylid trin gwylio mewn digwyddiadau megis dilyn clwb pêl-droed lleol a gorymdeithiau i ddathlu buddugoliaeth mewn chwaraeon fel gweithgaredd addysgol cymeradwy.

Os oes gan ysgolion bryderon ynghylch pa mor briodol yw gweithgaredd gallant geisio cyngor gan y corff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol. Fodd bynnag, yr ysgol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol a dylai ystyried yr effaith ar addysg gyffredinol y disgybl.

Mae'n rhaid i Weithgaredd Addysgol Cymeradwy gael ei oruchwylio gan rywun a gymeradwywyd gan yr ysgol. At hynny mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn y cofnodir y marc ar ei chyfer.

Cod Cofrestru: V

Disgrifiad Byr	Ymweliad neu daith addysgol
Ystyr Ystadegol	Gweithgaredd addysgol cymeradwy
Ystyr Gyfreithiol	Mynd i weithgaredd addysgol cymeradwy
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Teithiau ac ymweliadau a drefnir gan yr ysgol, gan gynnwys teithiau preswyl. Gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer teithiau eraill o natur hollol addysgol, a drefnir gan sefydliadau eraill, ar yr amod eu bod yn cael eu goruchwyllo.

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Mae'n rhaid i Weithgaredd Addysgol Cymeradwy gael ei oruchwyllo gan rywun a gymeradwywyd gan yr ysgol. At hynny mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn y cofnodir y marc ar ei chyfer.

Cod Cofrestru: J

Disgrifiad Byr	Cyfweliad
Ystyr Ystadegol	Gweithgaredd Addysgol Cymeradwy
Ystyr Gyfreithiol	Mynd i weithgaredd addysgol cymeradwy
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Cyfweliadau â darpar gyflogwyr, neu sefydliad addysgol arall.

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Gellid defnyddio'r cod hwn i gofnodi amser a dreuliwyd mewn cyfweliadau â darpar gyflogwyr neu ar gyfer lle mewn sefydliad addysg bellach neu addysg uwch (Bl 11 yn unig). Ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer cyfweliadau ar gyfer swyddi eraill.

Dylai'r ysgol fod yn fodlon bod y cyfweliad yn gysylltiedig â rhagolygon addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol, ac fel arfer dylai'r staff ofyn am rybudd ymlaen llaw a phrawf o'r apwyntiad.

Mae'n rhaid i Weithgaredd Addysgol Cymeradwy gael ei oruchwylio gan rywun a gymeradwywyd gan yr ysgol. At hynny mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn y cofnodir y marc ar ei chyfer.

Cod Cofrestru: W

Disgrifiad Byr	Profiad gwaith
Ystyr Ystadegol	Gweithgaredd Addysgol Cymeradwy
Ystyr Gyfreithiol	Mynd i weithgaredd addysgol cymeradwy
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Profiad gwaith o dan adran 560 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau eu bod yn monitro presenoldeb y disgybl yn y lleoliad profiad gwaith a marcio'r gofrestr yn unol ôl hynny.

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Bwriedir profiad gwaith ar gyfer disgyblion yn nwy flynedd olaf addysg orfodol. Ystyrir bod plentyn yn ei flwyddyn olaf o addysg orfodol o ddechrau'r tymor yn ei ysgol sy'n rhagflaenu dechrau'r flwyddyn ysgol pan fyddai'n peidio â bod o oedran addysg orfodol.

Mae'n rhaid i Weithgaredd Addysgol Cymeradwy gael ei oruchwylio gan rywun a gymeradwywyd gan yr ysgol. At hynny mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn y cofnodir y marc ar ei chyfer.

Ni ddylid cofnodi profiad gwaith fel rhan o gwricwlwm amgen na darpariaeth amgen gan ddefnyddio'r cod hwn. Mae'r cyfryw brofiad gwaith yn addysg ddilys "oddi ar y safle" a dylid ei gofnodi gan ddefnyddio Cod B.

Categori ystadegol: absenoldeb awdurdodedig

Cod Cofrestru: C

Disgrifiad Byr	Amgylchiadau awdurdodedig eraill (nas cwmpesir gan god/disgrifiad priodol arall)
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Awdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Achlysuron arbennig yn ôl disgrisiwn yr ysgol

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

(Mae'r enghreifftiau hyn yn rhai dangosol ac nid ydynt yn gynhwysfawr)

Dim ond achlysuron eithriadol a all gyfiawnhau cyfnod o absenoldeb. Dylai ysgolion ystyried pob cais yn unigol gan roi sylw i'r canlynol:

- y math o ddigwyddiad y mae'r disgybl yn ceisio caniatâd i fod yn absennol o'r ysgol er mwyn mynd iddo;
- pa mor aml y mae'n digwydd (a yw'n ddigwyddiad untro, neu a yw'n debygol o fod yn ddigwyddiad rheolaidd?);
- a roddodd y rhiant rybudd ymlaen llaw;
- patrwm presenoldeb y plentyn yn gyffredinol.

Gallai enghreifftiau gynnwys achlysuron arbennig megis mynd i briodas aelod o'r teulu, profedigaeth deuluol, ymweld â rhywun yn y carchar.

Perfformiadau Cyhoeddus

- Pan fydd disgybl yn absennol am ei fod yn cymryd rhan mewn perfformiad cyhoeddus, yr ysgol sy'n penderfynu a ddylid awdurdodi'r absenoldeb o hyd, hyd yn oed os yw'r disgybl yn cael ei gyflogi o dan drwydded a roddwyd gan awdurdod lleol.

Gofalwyr Ifanc

- Mewn gwir argyfwng gall ysgol gymeradwyo cyfnod o absenoldeb i blentyn ofalu am berthynas hyd nes y gellir gwneud trefniadau eraill. Dylai'r ysgol bennu terfyn amser ar gyfer y cyfnod o absenoldeb a gosod rhywfaint o waith ysgol fel na fydd y disgybl yn cael ei adael ar ôl tra bydd gartref.

Geni Plentyn

- Dylid anelu cymorth at gadw'r disgybl yn yr ysgol lle bynnag y bo modd, a'i dychwelyd i addysg lawn amser cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr enedigaeth.
- Ni ddylid caniatáu mwy na 18 wythnos o absenoldeb awdurdodedig i ddisgybl sy'n beichiogi i gwmpasu'r cyfnod yn union cyn ac ar ôl genedigaeth y plentyn. Ar ôl hynny, dylai unrhyw absenoldeb gael ei ystyried yn absenoldeb anawdurdodedig.

Ar gais yr ysgol I

Gosodwyd disgybl ar amserlen ran-amser y cytunwyd arni e.e. fel rhan o becyn derbyn neu ailintegreiddio fesul cam.

Cod Cofrestru: F

Disgrifiad Byr	Gwyliau Teuluol Estynedig (y cytunwyd arnynt)
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Awdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	<p>Fel arfer ni ddylai rhieni fynd â disgyblion ar wyliau yn ystod y tymor. Mae'n rhaid iddynt wneud cais am gyfnod o absenoldeb cyn ei gymryd. Dylid ystyried pob cais am absenoldeb gwyliau yn unigol gan roi sylw i'r canlynol: oedran y plentyn; ar ba adeg o'r flwyddyn y bwriedir mynd; y math o wyliau a dymuniadau'r rhieni; patrwm presenoldeb y disgybl yn gyffredinol; ar ba gyfnod y mae'r plentyn yn yr ysgol a'r cynnydd y mae'n ei wneud. Dylai ysgolion wahodd rhieni i drafod unrhyw wyliau arfaethedig yn ystod y tymor.</p> <p>Dim ond os ydynt o'r farn bod amgylchiadau arbennig sy'n ei gyfiawnhau y gall ysgolion roi caniatâd i ddisgybl fod yn absennol o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol. Dim ond os ydynt o'r farn bod amgylchiadau arbennig y gallant ganiatáu absenoldeb o fwy na 10 diwrnod ysgol mewn blwyddyn ysgol.</p> <p>Gellir dileu disgyblion nad ydynt yn dychwelyd i'r ysgol o fewn 10 diwrnod i ddiwedd cyfnod estynedig o absenoldeb os bydd yr ysgol a'r ALI yn methu â dod o hyd iddynt ac nad oes ganddynt reswm da dros fod yn absennol.</p>

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Mae'r categori hwn yn cynnwys cyfnod cyfan gwyliau estynedig lle y cytunodd pennaeth yr ysgol fod amgylchiadau eithriadol.

Bydd disgybl sy'n cymryd 10 diwrnod o wyliau (p'un a gawsant eu hawdurdodi ai peidio) mewn blwyddyn academiaidd ond yn bresennol yn yr ysgol am **94.7%** o'r amser (ar gyfer ysgolion cynradd). Bydd disgybl sy'n cymryd 10 diwrnod o wyliau yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Mai (sef cyfnod arolygu absenoldeb blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru) ond yn bresennol yn yr ysgol am **93.8%** o'r amser (ar gyfer ysgolion uwchradd).

Os bydd ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau am 10 diwrnod neu lai, mae'r absenoldeb wedi'i awdurdodi (defnyddiwch God H).

Os na fydd y rhieni yn gwneud cais am gyfnod o absenoldeb cyn ei gymryd mae'n rhaid cofnodi bod y disgybl yn absennol heb awdurdod gan ddefnyddio cod G.

Os na fydd yr ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau, mae'r absenoldeb yn absenoldeb anawdurdodedig (Cod G). Os bydd rhieni yn cadw plentyn i ffwrdd o'r ysgol am fwy o amser nag y cytunwyd arno, cofnodir unrhyw amser ychwanegol fel absenoldeb anawdurdodedig (Cod G).

Os bydd yr ysgol o'r farn bod amgylchiadau eithriadol pam y dylid rhoi caniatâd i'r plentyn fynd ar wyliau am fwy na 10 diwrnod, gellir rhoi'r caniatâd hwn a byddai'r absenoldeb yn absenoldeb awdurdodedig a châi ei gofnodi o dan God F. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- rhiant sy'n gweithio dramor am gyfnod tymor canolig penodol; a
- dychwelyd i wlad y tarddiad.

Cod Cofrestru: H

Disgrifiad Byr	Gwyliau Teuluol (y cytunwyd arnynt)
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Awdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	<p>Fel arfer ni ddylai rhieni fynd â disgyblion ar wyliau yn ystod y tymor ac mae'n rhaid iddynt wneud cais am gyfnod o absenoldeb cyn ei gymryd. Dylid ystyried pob cais am absenoldeb gwyliau yn unigol, gan roi sylw i'r canlynol: oedran y plentyn; ar ba adeg o'r flwyddyn y bwriedir mynd; y math o wyliau a dymuniadau'r rhieni; patrwm presenoldeb y disgybl yn gyffredinol; ar ba gyfnod y mae'r plentyn yn yr ysgol a'r cynnydd y mae'n ei wneud; ac a yw'r amgylchiadau yn ei gyfiawnhau. Dylai ysgolion wahodd rhieni i drafod unrhyw wyliau arfaethedig yn ystod y tymor.</p> <p>Dim ond os ydynt o'r farn bod amgylchiadau arbennig sy'n ei gyfiawnhau y gall ysgolion roi caniatâd i ddisgybl fod yn absennol o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol. Dim ond os ydynt o'r farn bod amgylchiadau arbennig y gallant ganiatáu absenoldeb o fwy na 10 diwrnod ysgol mewn blwyddyn ysgol.</p>

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Bydd disgybl y caniateir iddo gymryd 10 diwrnod o wyliau yn ystod un flwyddyn academaidd gyfan ond yn bresennol yn yr ysgol am **94.7%** o'r amser (ar gyfer ysgolion cynradd). Bydd disgybl y caniateir iddo gymryd 10 diwrnod o wyliau yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Mai (sef cyfnod arolygu absenoldeb blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru) ond yn bresennol yn yr ysgol am **93.8%** o'r amser (ar gyfer ysgolion uwchradd).

Os bydd ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau am 10 diwrnod neu lai, mae'r absenoldeb wedi'i awdurdodi (defnyddiwch God H).

Os na fydd y rhieni yn gwneud cais am gyfnod o absenoldeb cyn ei gymryd mae'n rhaid cofnodi bod y disgybl yn absennol heb awdurdod gan ddefnyddio cod G, am nad yw'r rheoliadau yn caniatáu i ysgolion roi caniatâd ôl-weithredol.

Os na fydd yr ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau, mae'r absenoldeb yn absenoldeb anawdurdodedig (Cod G). Os bydd rhieni yn cadw plentyn i ffwrdd o'r ysgol am fwy o amser nag y cytunwyd arno, cofnodir unrhyw amser ychwanegol fel absenoldeb anawdurdodedig (Cod G).

Os bydd yr ysgol o'r farn bod amgylchiadau eithriadol pam y dylid rhoi caniatâd i'r plentyn fynd ar wyliau am fwy na 10 diwrnod, gellir rhoi'r caniatâd hwn a byddai'r absenoldeb yn absenoldeb awdurdodedig a châi ei gofnodi o dan God F.

Cod Cofrestru: I

Disgrifiad Byr	Salwch (NID apwyntiadau meddygol na deintyddol ac ati)
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Awdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	<p>Mae colli'r cyfnod cofrestru oherwydd salwch yn absenoldeb awdurdodedig. Os bydd disgybl yn bresennol yn y cyfnod cofrestru ond yn dychwelyd adref oherwydd salwch, nid oes angen cofnodi unrhyw absenoldeb ar gyfer y sesiwn honno. Dylai ysgolion gadw cofnod o ddisgyblion sy'n gadael safle'r ysgol neu'n dychwelyd iddo rhag ofn y bydd argyfwng.</p> <p>Os oes amheuaeth a yw salwch yn ddilys, gall ysgolion gofnodi'r absenoldeb fel absenoldeb anawdurdodedig (Cod O) ond dylent hysbysu rhieni o fwriad yr ysgol. Gall ysgolion ofyn i rieni roi tystiolaeth feddygol i ategu absenoldeb oherwydd salwch.</p> <p>Dylid cofnodi bod disgybl sy'n cael triniaeth feddygol ar safle'r ysgol yn 'bresennol'.</p>

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Dylid defnyddio'r cod hwn pan fydd rhieni yn ffonio i ddweud bod eu plentyn yn sâl. Dylid cynghori rhieni bob amser i hysbysu'r ysgol cyn gynted â phosibl pan fydd plentyn yn sâl. Gellid ei ddefnyddio hefyd pan fydd rhieni yn anfon llythyr ar ôl y cyfnod o salwch i esbonio absenoldeb y plentyn.

Dylid cofnodi absenoldeb yn ystod y cyfnod cofrestru oherwydd apwyntiad meddygol, apwyntiad deintyddol neu apwyntiad ysbyty gan ddefnyddio Cod M.

Er y gall ysgolion ofyn am dystiolaeth feddygol i ategu absenoldeb oherwydd salwch, cynghorir ysgolion i beidio â gofyn am dystysgrifau meddygol yn ddiangen (yn arbennig tystysgrifau ôl-weithredol), yn enwedig os na chafodd y salwch ei drin gan feddyg ar y pryd. Bydd ceisiadau diangen yn rhwystro apwyntiadau meddygon teulu a allai, yn ei dro, arwain at oedi cyn trin eraill ac mae meddygon yn nodi ei bod yn anodd rhoi tystiolaeth ôl-weithredol, yn enwedig os na chafodd y disgybl ei drin ganddynt hwy. Gall tystiolaeth feddygol fod ar ffurf presgripsiynau golwg, cardiau apwyntiad, ac ati yn hytrach na Nodiadau Meddygon.

Cod Cofrestru: M

Disgrifiad Byr	Apwyntiadau Meddygol/Deintyddol
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Awdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	<p>Mae colli'r cyfnod cofrestru i fynd i apwyntiad meddygol neu ddeintyddol yn absenoldeb awdurdodedig.</p> <p>Dylid annog rhieni a disgyblion i drefnu apwyntiadau y tu allan i oriau'r ysgol. Dylech ofyn am gael gweld cerdyn apwyntiad os yw presenoldeb disgybl yn afreolaidd.</p> <p>Os bydd disgybl yn bresennol yn y cyfnod cofrestru ond bod ganddo apwyntiad meddygol yn ddiweddarach, nid oes angen cofnodi unrhyw absenoldeb ar gyfer y sesiwn honno. Dylai ysgolion gadw cofnod o ddisgyblion sy'n gadael safle'r ysgol neu'n dychwelyd iddo rhag ofn y bydd argyfwng.</p> <p>Dylid cofnodi bod disgybl sy'n cael triniaeth feddygol ar safle'r ysgol yn 'bresennol'.</p>

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Am resymau lechyd a Diogelwch mae'n rhaid sicrhau bod system ar waith i gofnodi bod disgybl wedi cyrraedd yr ysgol neu adael y safle yn ystod y sesiwn.

Mae apwyntiadau meddygol yn cynnwys:

- mynd i feddygfa meddyg teulu;
- mynd i ddeintyddfa;
- apwyntiadau ysbyty (nid arhosiad mewn ysbyty, y dylid defnyddio Cod I ar ei gyfer).

Cod Cofrestru: S

Disgrifiad Byr	Absenoldeb astudio
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Awdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Dylid defnyddio absenoldeb astudio yn gynnil a dim ond ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yn ystod ffug arholiadau ac arholiadau cyhoeddus.

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Mae llawer o ysgolion yn dewis chwilio am opsiynau eraill yn lle absenoldeb astudio am fod tystiolaeth nad oes gan gyfran fawr o fyfyrwyr y sgiliau i wneud y defnydd gorau o lawer o amser adolygu heb ei oruchwyllo a distrwythur neu nid ydynt yn tueddu i wneud y defnydd gorau ohono.

Mae gan wefan Cyd-bwyllgor Addysg Cymru awgrymiadau ar sut i astudio hefyd i fyfyrwyr sy'n sefyll arholiadau ar <http://www.wjec.co.uk/index.php?nav=91>.

Mae'n rhaid i Weithgaredd Addysgol Cymeradwy gael ei oruchwyllo gan rywun a gymeradwywyd gan yr ysgol. At hynny mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn y cofnodir y marc ar ei chyfer. Am nad yw absenoldeb astudio yn cael ei oruchwyllo ac am na all ysgolion gymryd yn ganiataol iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn ysgol nid yw'r bodloni'r gofynion rheoliadol hyn.

Dylai ysgolion gofio fod i unrhyw sesiwn a roddir i ddisgyblion fel absenoldeb astudio ystyr ystadegol absenoldeb awdurdodedig ac y dylai'r ysgol ei gofnodi a'i adrodd fel y cyfryw.

Wrth fesur y defnydd o absenoldeb astudio, ac felly absenoldeb awdurdodedig, mae'n rhaid i ysgolion gofio na all disgyblion adael yr ysgol tan y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin.

Ni ddylid marcio disgyblion sy'n bresennol mewn arholiadau gan ddefnyddio'r cod hwn.

Cod Cofrestru: E

Disgrifiad Byr	Wedi'i wahardd (Ni wneir unrhyw ddarpariaeth amgen)
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Awdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	<p>Mae disgybl sy'n cael ei wahardd am gyfnod penodol yn aros ar gofrestr yr ysgol ond ni all ddod i'r ysgol. Mae disgybl sy'n cael ei wahardd yn barhaol yn aros ar gofrestr yr ysgol nes y bydd y broses apelio wedi'i chwblhau.</p> <p>Dylid trefnu darpariaeth amgen i bob disgybl sydd wedi'i wahardd o'r pymthegfed diwrnod ar ôl dyddiad y gwaharddiad ond mae rhai ysgolion ac ALIau yn dewis gwneud darpariaeth cyn hynny. Mae absenoldeb oherwydd gwaharddiad cyfnod penodol lle nad oes unrhyw ddarpariaeth amgen wedi'i threfnu yn absenoldeb awdurdodedig am fod yr absenoldeb yn deillio o benderfyniadau a wnaed gan yr ysgol.</p> <p>Yn yr un modd, dylid trin absenoldeb plentyn sydd wedi'i wahardd yn barhaol na wneir unrhyw ddarpariaeth amgen ar ei gyfer fel absenoldeb awdurdodedig tra bod unrhyw adolygiad neu apêl ar y gweill.</p>

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Defnyddir y cod hwn i gofnodi absenoldeb disgyblion oherwydd:

- eu bod wedi'u gwahardd; **ac**
- na wnaed unrhyw ddarpariaeth i'w galluogi i barhau â'u haddysg tra byddant wedi'u gwahardd.

Mae'r ysgol yn gyfrifol am wneud trefniadau amgen ar gyfer disgybl sydd wedi'i wahardd sy'n aros ar gofrestr yr ysgol naill ai'n uniongyrchol neu ar y cyd â darparwr darpariaeth amgen y cytunwyd arno. Dyle'r ddarpariaeth hon fod ar gael o'r unfed diwrnod ar bymtheg ar ôl y dyddiad y gwaharddwyd y disgybl yn barhaol a'r unfed diwrnod ar bymtheg o waharddiad cyfnod penodol. Mae canllawiau pellach ar waharddiadau ar gael yn:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/exclusionguidance/?skip=1&lang=cy>

Os yw'r ddarpariaeth amgen a wneir mewn uned cyfeirio disgyblion neu uned wahardd a rennir mewn ysgol arall, ni ddylid cofnodi'r disgybl o dan God presenoldeb D am fod y disgybl wedi'i gofrestru'n ddeuol yn y ddau sefydliad. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen newid statws cofrestru'r disgybl fel y'i cofnodir yn

System Gwybodaeth Reoli'r ysgol (MIS) o Gofrestriad sengl cyfredol (C) i Brif Sefydliad Cyfredol (Cofrestriad deuol) (M).

Os yw'r disgybl "wedi'i wahardd yn fewnol" neu'n mynd i uned wahardd a rennir o fewn yr ysgol dylid cofnodi'r presenoldeb gan ddefnyddio'r marciau arferol ar gyfer presennol.

Os mai'r ddarpariaeth amgen a wneir yw mynd at unrhyw ddarparwr arall (y cytunwyd arno gan yr awdurdod lleol*), dylid cofnodi'r disgybl o dan God B am fod y plentyn yn cael ei addysgu oddi ar y safle.

Ym mhob achos lle y gwneir darpariaeth amgen ac mae'r disgybl yn absennol, dylid cofnodi'r absenoldeb gan ddefnyddio'r cod priodol ar gyfer y gweithgaredd hwnnw ac nid Cod E.

Os cadarnheir gwaharddiad parhaol dylid dileu enw'r disgybl o gofrestr yr ysgol ar y diwrnod ysgol:

- ar ôl i'r panel apêl gadarnhau bod y disgybl wedi'i wahardd yn barhaol;
- pan ddaw'r amser a ganiateir ar gyfer gwneud apeliadau i ben;
- ar ôl i'r rhiant gadarnhau'n ysgrifenedig nad yw'n bwriadu apelio; neu
- os yw'r disgybl yn cymryd lle rywle arall.

Cod Cofrestru: R

Disgrifiad Byr	Defodau crefyddol
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Awdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Allan am y sesiwn gyfan
Ystyr Ffisegol	Absennol
Pryd i'w ddefnyddio	Absenoldeb i gymryd rhan mewn unrhyw ddiwrnod a neilltuwyd ar gyfer defodau crefyddol yn unig gan y corff crefyddol y mae'r rhieni yn perthyn iddo, gan gynnwys gwyliau crefyddol. Dylid annog rhieni i roi rhybudd ymlaen llaw.

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Dehonglir hyn i olygu, os bydd sefydliad crefyddol y rhieni yn nodi bod y diwrnod yn *yl grefyddol, fod yn rhaid i'r ysgol awdurdodi'r absenoldeb. Pan fo angen, dylai ysgolion geisio cyngor gan gorff crefyddol y rhieni ar a yw wedi neilltuo'r diwrnod ar gyfer defodau crefyddol.

Os na fydd y corff crefyddol wedi neilltuo'r diwrnod nid yw'n ofynnol i'r ysgol gymeradwyo'r absenoldeb na chaniatáu cyfnod o absenoldeb. Nid yw gwyliau ychwanegol a diwrnodau i ffwrdd sy'n gysylltiedig â'r *yl grefyddol ond nad ydynt "wedi'u neilltuo ar gyfer defodau crefyddol yn unig" gan y corff crefyddol yn cael eu marcio gan ddefnyddio Cod R.

Cod Cofrestru: T

Disgrifiad Byr	Absenoldeb teithiwr
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Awdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Plentyn teithwyr pan fydd y teulu yn teithio

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Cwmpesir nifer o grwpiau gwahanol gan y term generig Teithiwr - Roma, Sipsiwn o Gymru a Lloegr, Teithwyr o Iwerddon a'r Alban, Dynion Sioe (Pobl ffair bleser) a Phobl syrca, Cychwyr (pobl sy'n byw ar gychod i gyflawni eu galwedigaeth) a Theithwyr Newydd.

Er mwyn helpu i sicrhau parhad dysgu i blant Teithwyr, caniateir eu cofrestru'n ddeuol. Ni all ysgol ddileu plentyn Teithwyr o gofrestr yr ysgol tra bydd yn teithio os mai hi yw'r ysgol sefydlog.

Os yw'n hysbys bod teulu'r disgybl yn teithio ond nad yw'n hysbys a yw'r plentyn yn mynd i ddarpariaeth addysgol (mewn ysgol neu gyda darparwr arall), dylid awdurdodi'r absenoldeb a'i gofnodi gan ddefnyddio cod T.

Os yw'n hysbys bod y disgybl wedi'i gofrestru'n ddeuol a'i fod yn bresennol mewn ysgol arall yn ystod y sesiwn dan sylw, dylid cofnodi'r presenoldeb gan ddefnyddio cod D. Os yw'n hysbys bod y disgybl yn bresennol (yn ystod y sesiwn dan sylw) mewn gweithgaredd addysgol arall sy'n bodloni gofynion y rheoliad ar weithgareddau addysgol a gymeradwywyd, dylid marcio'r presenoldeb gan ddefnyddio codau B, J, P, V neu W fel y bo'n briodol.

Os yw'n hysbys bod y disgybl yn absennol o ddarpariaeth arall am resymau heblaw am deithio (e.e. salwch, absenoldeb heb ei esbonio) dylid defnyddio'r cod priodol.

Mae plant o deuluoedd "teithwyr" yn ddarostyngedig i'r un rheolau â phlant eraill o ran y gofyniad eu bod yn mynd i'r ysgol. Fodd bynnag, mae amddiffyniad ar gael i deuluoedd teithwyr, os cânt eu herlyn am beidio ag anfon eu plentyn i'r ysgol, ar yr amod bod y plentyn wedi bod yn bresennol mewn ysgol am o leiaf 200 o sesiynau yn ystod y 12 mis sy'n dod i ben pan ddechreuir yr achos cyfreithiol.

Categori ystadegol: absenoldeb anawdurdodedig

Cod Cofrestru: N

Disgrifiad Byr	Ni roddwyd unrhyw reswm eto dros yr absenoldeb
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Anawdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Dim rheswm dros yr absenoldeb

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Dylid gwneud pob ymdrech i ddarganfod pam roedd y disgybl yn absennol o'r ysgol. Nes y ceir esboniad, mae'n rhaid cofnodi'r absenoldeb gan ddefnyddio Cod N. Os na roddir unrhyw reswm dros yr absenoldeb ar ôl cyfnod rhesymol o amser, dylid rhoi Cod N yn lle Cod O.

Os bydd disgyblion yn absennol yn annisgwyl ac nad yw eu rhieni yn cysylltu â'r ysgol, dylai'r ysgol gysylltu â hwy o dan drefniadau galw ar y diwrnod cyntaf.

Ni ddylid gadael Cod N yn dangos ar gofnod presenoldeb y disgybl am gyfnod amhenodol.

Dylai ysgolion sicrhau fod ganddynt systemau a gweithdrefnau ar waith i ymchwilio i'r achosion hyn o absenoldeb a chadarnhau'r rheswm dros yr absenoldeb, yn ddelfrydol o fewn pythefnos.

Pan fydd disgybl wedi'i gofnodi fel Cod N i ddechrau a newidir hyn wedyn â rheswm dros absenoldeb y disgybl, ystyrir mai'r wybodaeth newydd yw'r cofnod cyntaf yn y gofrestr ac nid oes angen cysylltu'r newid o God N â'r sawl a wnaeth y newid, pryd na pham. Y rheswm syml yw bod y wybodaeth wedi'i rhoi. Mae'n rhaid i unrhyw newid arall i unrhyw wybodaeth arall a gofnodir ar y gofrestr bresenoldeb neu'r gofrestr dderbyniadau gael ei hategu â manylion y cofnod gwreiddiol a'r cofnod newydd arall, y sawl a wnaeth y newid, pryd a pham.

Cod Cofrestru: O

Disgrifiad Byr	Absenoldeb Anawdurdodedig (nas cwmpesir gan unrhyw god/disgrifiad arall)
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Anawdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	Absenoldeb Anawdurdodedig

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Enghreifftiau:

- pen-blwydd disgybl/rhiant/brawd neu chwaer/perthynas;
- siopa;
- torri gwallt;
- trî arbennig;
- diwrnod marchnad;
- "Allwn i ddim codi o'r gwely";
- cau ysgol brawd neu chwaer at ddibenion Hyfforddiant mewn Swydd (neu ddibenion eraill).

Cod Cofrestru: G

Disgrifiad Byr	Gwyliau Teuluol (NA chytunwyd arnynt neu ddiwrnodau sy'n ychwanegol at yr hyn y cytunwyd arno)
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Anawdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Allan am y sesiwn gyfan
Pryd i'w ddefnyddio	<p>Fel arfer ni ddylai rhieni fynd â disgyblion ar wyliau yn ystod y tymor ac mae'n rhaid iddynt wneud cais am gyfnod o absenoldeb cyn ei gymryd. Dylid ystyried pob cais am absenoldeb gwyliau yn unigol, gan roi sylw i'r canlynol: oedran y plentyn; ar ba adeg o'r flwyddyn y bwriedir mynd; y math o wyliau a dymuniadau'r rhieni; patrwm presenoldeb y disgybl yn gyffredinol; ar ba gyfnod y mae'r plentyn yn yr ysgol a'r cynnydd y mae'n ei wneud. Dylai ysgolion wahodd rhieni i ddod i'r ysgol i drafod unrhyw wyliau arfaethedig yn ystod y tymor.</p> <p>Dim ond os ydynt o'r farn bod amgylchiadau arbennig sy'n ei gyfiawnhau y gall ysgolion roi caniatâd i ddisgybl fod yn absennol o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol. Dim ond os ydynt o'r farn bod amgylchiadau arbennig y gallant ganiatáu absenoldeb o fwy na 10 diwrnod ysgol mewn blwyddyn ysgol.</p>

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Bydd disgybl y caniateir iddo gymryd 10 diwrnod o wyliau yn ystod un flwyddyn academaidd gyfan ond yn bresennol yn yr ysgol am **94.7%** o'r amser (ar gyfer ysgolion cynradd).

Bydd disgybl sy'n cymryd 10 diwrnod o wyliau yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Mai (sef cyfnod arolygu absenoldeb blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru) ond yn bresennol yn yr ysgol am **93.8%** o'r amser (ar gyfer ysgolion uwchradd).

Os bydd ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau am 10 diwrnod neu lai, mae'r absenoldeb wedi'i awdurdodi (defnyddiwch God H).

Os na fydd y rhieni yn gwneud cais am gyfnod o absenoldeb cyn ei gymryd mae'n rhaid cofnodi bod y disgybl yn absennol heb awdurdod gan ddefnyddio cod G, am nad yw'r rheoliadau yn caniatáu i ysgolion roi caniatâd ôl-weithredol.

Os na fydd yr ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau, mae'r absenoldeb yn absenoldeb anawdurdodedig (Cod G). Os bydd rhieni yn cadw plentyn i ffwrdd o'r ysgol am fwy o amser nag y cytunwyd arno, cofnodir unrhyw amser ychwanegol fel absenoldeb anawdurdodedig (Cod G).

Os bydd yr ysgol o'r farn bod amgylchiadau eithriadol pam y dylid rhoi caniatâd i'r plentyn fynd ar wyliau am fwy na 10 diwrnod, gellir rhoi'r caniatâd hwn a byddai'r absenoldeb yn absenoldeb awdurdodedig a châi ei gofnodi o dan God F.

Cod Cofrestru: U

Disgrifiad Byr	Hwyr (ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben)
Ystyr Ystadegol	Absenoldeb Anawdurdodedig
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Hwyr i'r sesiwn
Pryd i'w ddefnyddio	<p>Dylai ysgolion ymdrechu i annog disgyblion i beidio â bod yn hwyr a gwyllo am batrymau cyrraedd yn hwyr, a allai ddarparu sail ar gyfer erlyniad. Dylai fod gan ysgolion bolisi ar ba mor hir y dylid cadw cofrestrau ar agor.</p> <p>O dan amgylchiadau megis tywydd gwael neu anawsterau yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus, gall ysgolion gadw'r gofrestr ar agor am gyfnod hwy.</p>

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Dylid defnyddio'r cod pan fydd disgybl wedi cyrraedd ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben ac nid oes unrhyw reswm perthnasol dros ei godio fel arall.

Enghraifft:

Os bydd disgybl yn cyrraedd yn hwyr (ar ôl cau'r cofrestrau) oherwydd apwyntiad gyda meddyg neu ddeintydd, câi Cod M ei ddefnyddio.

Os bydd disgybl yn cyrraedd yn hwyr (ar ôl cau'r cofrestrau) am na allai ddod o hyd i'w esgidiau/am fod ei wisg ysgol yn sychu mewn sychdafllwr/am fod ei chwaer iau yn creu trafferth ac ati, câi cod U ei ddefnyddio.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi y dylai ysgolion gau'r gofrestr i ddisgyblion 30 munud ar ôl dechrau'r sesiwn. Mae hefyd yn cynghori ysgolion i beidio â gadael y gofrestr ar agor am y sesiwn gyfan. (Gweler Cod L a Chod U).

Mae ysgolion/ALLau wedi gofyn a allai ysgolion gael amser y cytunwyd arno ar gyfer cau'r gofrestr. Nid yw hyn yn bosibl oherwydd anghenion unigol pob ysgol a'r pŵer sydd gan ysgol i bennu amseroedd sesiynau gwahanol ar gyfer disgyblion gwahanol (gweler isod).

Am resymau iechyd a ciogelwch, mae angen i ysgolion wybod ble mae disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n gadael neu'n cyrraedd safle'r ysgol yn ystod sesiwn. Gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio system bapur yn swyddfa'r ysgol i gofnodi bod disgybl wedi cyrraedd safle'r ysgol yn ystod y sesiwn. Gall "monitro gwersi" helpu gyda'r broses hefyd.

O dan reoliadau'r Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol, gall ysgolion bennu amseroedd sesiynau gwahanol i ddisgyblion gwahanol, er enghraifft yn ystod arholiadau cyhoeddus a phennu amseroedd gwersi gwahanol i ddisgyblion mewn unedau

gwahardd. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt ystyried cyngor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr isafswm amser addysgu ar gyfer disgyblion a'r gofyniad i gynnig 380 o sesiynau. Os bydd ysgolion yn pennu amseroedd sesiynau gwahanol, dylent gau'r gofrestr 30 munud ar ôl i'r gofrestr gael ei llenwi ar gyfer y grŵp hwnnw o ddisgyblion. Er enghraifft os dechreuodd y prif ddiwrnod ysgol am 8.30am ond bod yr uned wahardd wedi dechrau am 9.30am:

- dylai'r gofrestr ar gyfer y brif ysgol gau am 9.00am
- bydd y gofrestr ar gyfer yr uned wahardd yn cau am 10.00am.

(Gweler hefyd God L)

Am resymau yn ymwneud â diogelu plant a rhesymau addysgol, mae'n rhaid i ysgolion ymchwilio i bob absenoldeb heb ei esbonio a phob absenoldeb annisgwyl yn amserol, er enghraifft drwy weithdrefnau “Galw ar y Diwrnod Cyntaf”.

Categori ystadegol: dim rhaid bod yn bresennol

Cod Cofrestru: X

Disgrifiad Byr	Sesiynau heb eu rhaglennu ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol
Ystyr Ystadegol	Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl
Ystyr Gyfreithiol	Absennol
Ystyr Ffisegol	Nid oes angen iddynt fod yn yr ysgol
Pryd i'w ddefnyddio	Disgyblion nad ydynt wedi cyrraedd pum mlwydd oed ar ddechrau'r tymor y ceir y sesiwn neu a oedd yn 16 oed cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y'i ceir.

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i alw'r gofrestr ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol a disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol. Y gwahaniaeth rhwng y ddwy set o gofnodion yw nad oes angen i'r ysgol gofnodi p'un a yw'r absenoldeb wedi'i awdurdodi ai peidio yn achos disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol.

Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod y cod hwn yn cael ei ddefnyddio i gofnodi sesiynau na ddisgwyllir i blant nad ydynt o oedran ysgol gorfodol fod yn bresennol ynddynt a bod y codau safonol yn cael eu defnyddio i gofnodi categorïau eraill o absenoldeb. Ni fydd hyn yn effeithio ar ystadegau presenoldeb ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, am nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu ystadegau ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol. Bydd yn helpu ysgolion i nodi'n hawdd pryd mae disgyblion wedi colli gwersi. **Ni ddylid defnyddio'r cod hwn i gofnodi absenoldeb plant o oedran ysgol gorfodol nac unrhyw fath o waharddiad.**

Os bydd ysgol yn rhoi disgybl o oedran ysgol gorfodol ar amserlen ran-amser, er enghraifft fel rhan o broses ailintegreiddio, yna mae'r ysgol yn awdurdodi absenoldeb y disgybl o'r sesiynau nad ydynt ar yr amserlen. Dylid cofnodi'r absenoldeb hwnnw o dan God C. Ni ddylai ysgolion roi disgyblion ar amserlenni rhan-amser am gyfnod amhenodol a dylent fonitro'r amserlen a'r disgybl.

Os bydd disgybl wedi'i gofrestru mewn mwy nag un ysgol, dylid cofnodi presenoldeb mewn ysgol arall/ysgolion eraill o dan god D a dylid cofnodi absenoldeb o bob un o'r ysgolion yn y ffordd arferol.

Disgyblion Blwyddyn 11 sy'n mynd ymlaen i Flwyddyn 12 (Chweched Dosbarth)

O dan y Rheoliadau Newydd, ni all ysgolion ddileu disgyblion Blwyddyn 11 sy'n bwriadu aros yn yr ysgol a mynd i'r Chweched Dosbarth (Blwyddyn 12) o gofrestrau'r ysgol. Unwaith y bydd y disgyblion dros yr oedran ysgol gorfodol, sef ar y dydd

Gwener olaf ym mis Mehefin, gellir eu cofnodi gan ddefnyddio'r cod hwn os na fydd yr ysgol wedi gofyn iddynt ymbresenoli.

Cod Cofrestru: Y

Disgrifiad Byr	Gorfod Cau Ysgol neu Gau Ysgol yn Rhannol
Ystyr Ystadegol	Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl
Ystyr Gyfreithiol	Absenoldeb oherwydd amgylchiadau eithriadol neu absenoldeb am fod gan y disgyblion flwyddyn ysgol wahanol i ddisgyblion eraill yn yr ysgol.
Ystyr Ffisegol	Nid oes angen iddynt fod yn yr ysgol
Pryd i'w ddefnyddio	Pan achosir i safle'r ysgol, neu ran ohono, gael ei gau gan ddigwyddiad na ellid ei osgoi neu pan na fydd y trafndiaeth a ddarperir gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol i ddisgyblion (nad ydynt yn byw o fewn pellter cerdded i'r ysgol) ar gael. Neu pan fydd gan yr ysgol ddyddiadau tymhorau gwahanol ar gyfer grwpiau gwahanol o ddisgyblion.

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Dyddiadau Tymhorau Gwahanol ar gyfer Disgyblion Gwahanol

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion fod ar agor i bob disgybl o oedran ysgol gorfodol am 380 o sesiynau'r flwyddyn ond gall ysgolion ac awdurdodau lleol gytuno i bennu dyddiadau tymhorau gwahanol ar gyfer grwpiau blwyddyn gwahanol. Pan fyddant yn gwneud hyn, gall ysgolion ddefnyddio Cod Y i gofnodi na ddisgwylir i grŵp blwyddyn fod yn bresennol. Gall ysgolion ac awdurdodau lleol ddefnyddio'r gofrestr bresenoldeb i fonitro'r cynnig a wneir i ddisgyblion am fod yn rhaid sicrhau bod o leiaf 380 o sesiynau wedi'u cofnodi gan ddefnyddio codau / \ neu B i W ar gyfer pob disgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol am y flwyddyn gyfan.

Ar gau o ganlyniad i ddigwyddiad na ellid ei osgoi

At ddibenion cofnodi presenoldeb ac absenoldeb, "trafnidiaeth swyddogol" yw trafndiaeth a drefnir ac a ariennir gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol megis bysiau penodol, tacsis a thocynnau trafndiaeth gyhoeddus.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- mae cyflwr ffyrdd yn golygu na ellir teithio ar hyd-ddynt gyda'r canlyniad mai dim ond rhai o'r disgyblion y gall y bws ysgol neu'r tacsï eu casglu;
- nid oes trafndiaeth gyhoeddus ar gael i'r rhai y rhoddwyd tocynnau iddynt oherwydd digwyddiad mawr;
- boeler wedi torri;
- llifogydd;
- difrod

Ni ddylid defnyddio'r cod hwn ar gyfer achosion o gau safle'r ysgol a gynlluniwyd a ddylid ei gofnodi fel Cod #. **Ni** ddylid ei ddefnyddio ar gyfer disgyblion ar amserlenni rhan-amser nac unrhyw fath o waharddiad.

Dylid defnyddio'r marc hwn pan dynnir y drafnidiaeth swyddogol yn ôl gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol (neu gyda'i gytundeb). Ni ddylid ei ddefnyddio:

- ar gyfer disgyblion sy'n "colli'r bws" ac a allai ddefnyddio gwasanaeth diweddarach gan gyrraedd yn hwyr;
- pan na fydd dull teithio arferol disgyblion ar gael, er enghraifft cael eu gyrru i'r ysgol gan rieni, ond mae dulliau teithio eraill ar gael; neu
- ar gyfer disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol fel arfer.

Pan fydd ysgol yn gorfod cau o dan amgylchiadau eithriadol, gellir cofnodi hyn mewn systemau cofnodi presenoldeb electronig drwy gofnod "system gyfan" i'r ysgol gyfan a dylai'r penderfyniad i gau'r ysgol gynnwys pob disgybl yn yr ysgol.

Lle bo'r ysgol yn gorfod cau ar gyfer rhai disgyblion yn unig o dan amgylchiadau eithriadol, e.e. un safle lle y ceir grwpiau neu ddsbarthiadau blwyddyn 2, gellir cofnodi hyn mewn systemau cofnodi presenoldeb electronig drwy ddewis y grwpiau neu'r dosbarthiadau blwyddyn a sicrhau bod y penderfyniad i gau'r ysgol i rai disgyblion yn unig yn cynnwys pob disgybl yn y gr*^p neu'r dosbarth blwyddyn.

Pan wneir penderfyniad dan orfodaeth i gau'r ysgol i rai disgyblion yn unig lle na fydd modd i'r ysgol/Awdurdod Lleol ddarparu cludiant, gellir cofnodi hyn mewn systemau cofnodi presenoldeb electronig drwy ddewis y disgyblion fel gr*^p a sicrhau bod y penderfyniad yn cynnwys pob disgybl yn y grŵp hwnnw.

Cod Cofrestru: Z

Disgrifiad Byr	Nid yw'r disgybl ar y gofrestr eto
Ystyr Ystadegol	Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl
Ystyr Gyfreithiol	Nid yw'r disgybl wedi'i gofrestru yn yr ysgol
Ystyr Ffisegol	Nid oes angen iddo fod yn yr ysgol
Pryd i'w ddefnyddio	At ddibenion gweinyddol ar gyfer disgyblion y disgwylir iddynt ymuno â chofrestr yr ysgol

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Mae'r cod hwn ar gael i alluogi ysgolion i sefydlu cofrestrau cyn y disgwylir i ddisgyblion ymuno ac ysgafnhau'r gwaith gweinyddol.

Mae systemau MIS ysgolion yn storio manylion disgyblion y bwriedir eu derbyn mewn "grŵp cyn derbyn" a dresglwyddir wedyn ar ddechrau'r tymor. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gan ysgolion fanylion am ddisgyblion newydd yn eu system MIS cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn ymbreseneli (am eu bed wedi dechrau rywle arall) ond maent yn dal i fod "ar y gofrestr" o ran y cyfrifiadur nes y byddant yn cael eu cofnodi fel rhywun sydd wedi gadael yr ysgol. Tra byddant "ar y gofrestr" fel hyn, fe'u dangosir fel rhai sy'n absennol "heb awdurdod" oni ellir nodi "nad ydynt ar y gofrestr eto" yn y cyfrifiadur.

O dan y rheoliadau newydd, mae'n rhaid i ysgolion roi disgyblion ar y gofrestr dderbyniadau ar y diwrnod cyntaf y mae'r ysgol yn disgwyl iddynt ymbresonoli nid pan fyddant yn ymbresonoli am y tro cyntaf, fel cynt. Dylai ysgolion hefyd gofio bod yn rhaid cofnodi enw pob disgybl ar y gofrestr dderbyniadau ar y gofrestr bresenoldeb a chofnodi eu presenoldeb.

Os disgwylir i ddisgybl gyrraedd ysgol h.y. mewn "grŵp cyn derbyn", ond nad yw'n dod i'r ysgol, dylai'r ysgol hysbysu'r ALI ar unwaith a marcio'r disgybl gan ddefnyddio Cod N. Pan fydd yr ysgol a'r ALI yn dod o hyd i'r disgybl, dylent farcio'r disgybl yn unol â hynny. Er enghraifft, os ceir bod y disgybl mewn ysgol arall, gellir trin y disgybl fel petai wedi'i gofrestru'n ddeuol (gweler Ced D) a'i ddileu wedyn o gofrestr yr ysgol.

Cod Cofrestru: #

Disgrifiad Byr	Yr ysgol ar gau i ddisgyblion
Ystyr Ystadegol	Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl
Ystyr Gyfreithiol	Ni chynhaliwyd unrhyw sesiwn
Ystyr Ffisegol	Nid oes angen bod yn yr ysgol
Pryd i'w ddefnyddio	Ar yr adegau hynny y bwriedir cau'r ysgol gyfan

Gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol:

Dylid defnyddio'r cod hwn ar gyfer achosion lle y cynlluniwyd i gau'r ysgol gyfan. Er enghraifft:

- rhwng tymhorau;
- hanner tymhorau;
- diwrnodau achlysurol pan fydd yr ysgol gyfan (gan gynnwys staff) ar wyliau;
- penwythnosau (os yw'n ofynnol gan y system);
- hyd at bum niwrnod dim cyswllt pan fo athrawon yn y gwaith ond nad ydynt yn addysgu a phan nad oes angen i ddisgyblion fod yn bresennol yn yr ysgol;
- unrhyw ddiwrnodau dim cyswllt ychwanegol a ddiffinnir gan reoliad i'w defnyddio at ddibenion cynllunio cwricwlwm/hyfforddiant;
- defnyddio ysgolion fel gorsafoddd pleidleisio.

Ni ddylid defnyddio'r cod hwn ar gyfer achosion lle mae safle ysgol gyfan neu ran ohono yn gorfod cau. Cod Y yw'r cod priodol (gweler y canllawiau ar God Y).